

Atodiad

Sgwrs ffôn gyda Rosie Plummer, prynhawn ddydd Mercher 20 Mai 2015

Dywedodd Rosie Plummer wrth aelod o staff y Gymdeithas dros y ffôn na ddylen ni fel mudiad anfon e-bost ati yn Gymraeg gan mai ei dewis iaith hithau yw'r Saesneg. Esboniwyd wrth Dr Plummer gan yr aelod o staff fod ganddynt yr hawl i gyfathrebu'n ysgrifenedig â'r Ardd yn Gymraeg, yn unol â'i chynllun iaith. Ymhellach, datganodd Dr Plummer na ddylid disgwyl i'r Ardd gadw at holl ofynion ei chynllun iaith gan mai cynllun gwirfoddol ydyw.

Sgwrs ffôn gyda Rosie Plummer, 23 Mehefin

Pwysleisiodd Dr Plummer mai cyfarfod anffurfiol gyda hi a David Hardy fydd ein cyfarfod, er i ni wneud cais i gwrdd â'r sefydliad, felly roedd hi'n ansicr a fyddai'n rhaid trefnu fod y cyfarfod yn gallu digwydd yn Gymraeg. Dywedodd Dr Plummer na fyddai hi'n fodlon gyda'r syniad o drefnu na thalu am gyfieithydd, er mai cyfieithu o'r Gymraeg i'r Saesneg er budd swyddogion yr Ardd fyddai'r cyfieithydd. Yn y pendraw cytunodd Dr Plummer i gael cyfieithydd yn bresennol yn y cyfarfod, ond byddai'n rhaid i ni dalu amdano, a dywedodd "I reserve the right to say 'this isn't working' and that we don't continue with it," gan iddi gael profiadau aflwyddiannus gyda chyfieithu mewn cyfarfodydd bach yn y gorffennol.

E-bost oddi wrth Rosie Plummer, 2 Gorffennaf

Hoffwn ddweud unwaith eto, fel y dwedais wrth Bethan ar y ffôn, fy mod i'n fodlon iawn i gwrdd â chi a'ch cydewithwyr yn y Gymdeithas yn anffurfiol. Fodd bynnag, cynnig allan o gwrteisi yw hwn, ac yn sgil hynny dydw i ddim yn barod i ddarparu nac ariannu gwasanaeth cyfieithu y tro hwn. Rwy'n cydnabod y bydd hyn yn eich siomi, ac felly bodlonaf os hoffech ddod â dehonglydd gyda chi er eich lles eich hun ac at eich cost eich hun – a byddaf yn barod i ymgyfranogi yn y broses cyhyd â nad yw hyn yn debyg o greu rhwystr inni rhag cyfnewid syniadau'n rhwydd. Rhaid imi felly eich cyngori os y'ch chi am gymryd yr opsiwn hwn, ac yn ystod y cyfarfod y daw hi'n glir imi bod y cyfieithu yn ei gwneud hi'n anodd inni gyfathrebu, dywedaf hynny wrthoch chi. O dan yr amgylchiadau hyn, gwahoddaf chi naill ai i barhau gyda'r cyfarfod heb gyfieithu, neu wrthod â gwneud hynny.